



CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETHAU PENSIYNAU CYMRU

DYDDIAD 28 GORFFENAF 2021

PWNC

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo diweddariad i'r:

- **Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau**
- **Polisi Risg**
- **Polisi Risg Hinsawdd**

RHESYMAU:

Cymeradwyodd y CBLI y Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau, Polisi Risg a'r Polisi Risg Hinsawdd presennol ym mis Gorffennaf 2020. Adolygwyd y polisiau hyn gan y Gweithgor Swyddogion (GS) ac mae angen i'r CBLI gymeradwyo'r polisiau sydd wedi eu diweddarau.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn: 01267 224160

E-bost:
CMoore@carmarthenshire.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 28 GORFFENAF 2021

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (y Bartneriaeth) wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun gaiff eu hadolygu yn flynyddol. Ym mis Gorffennaf 2020, cymeradwyodd y CBLI y Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau, Polisi Risg a'r Polisi Risg Hinsawdd.

Mae'r Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau yn amlinellu sut mae adnabod gwrthdrawiadau, eu rheoli a'u monitro. Adolygwyd y polisi hwn gan y GS a'i newid i gynnwys rhagor o fanylion ar y broses werthuso a gynhelir gan yr Awdurdod Lletya a'i adolygu gan y GS. Ymhellach, mae'r Polisi yn awr yn egluro pwysigrwydd hyfforddiant i helpu'r Bartneriaeth i adnabod Gwrthdrawiadau Buddiannau posib cyn iddynt gael cyfle i gael effaith negyddol.

Mae'r Polisi Risg yn amlinellu credoau ac amcanion y Bartneriaeth mewn perthynas â risg, mae'n manylu ei strategaeth o ran sut mae adnabod risgiau, eu rheoli a'u monitro. Mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisi hwn. Darpara'r adolygiad fanylion ychwanegol ar rôl Is-grŵp Risg y Bartneriaeth a phroses adolygiad chwarterol Cofrestr Risg y Bartneriaeth. Yn ychwanegol, mae'r Polisi yn rhoi cydnabyddiaeth arbennig i fateroldeb risg buddsoddi, yn cynnwys Risg Hinsawdd.

Y trydydd polisi i gael ei adolygu gan y GS yn ystod y chwarter yma yw'r Polisi Risg Hinsawdd sy'n nodi dull y Bartneriaeth o fynd i'r afael gyda gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol o ran risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r hinsawdd a monitro'r risgiau hyn. Mae adolygiad y polisi hwn yn ychwanegu pwyntiau ar rôl y Bartneriaeth fel hwylusydd datrysiadau sy'n ymwneud â'r Hinsawdd sy'n ofynnol gan yr Awdurdodau Cyfansoddol i gwrdd â'u strategaeth fuddsoddi leol. Yn bwysig iawn, mae'r Polisi yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio a dyhead yr Awdurdodau Cyfansoddol i gytuno ar 'Nod Hinsawdd' eang i'r Pŵl yn flynyddol.??

Os yw'r polisiâu yn cael eu cymeradwyo, byddant yn cael eu diweddarau ar wefan y Bartneriaeth.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

YDY

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Polisi Mae'r Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau, Polisi Risg a'r Polisi Risg Hinsawdd i gyd yn ddogfennau ffurfiol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd, yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

MANYLIR AR Y RHAIN ISOD

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld / DOLEN GWEFAN